# Rheoli perygl llifogydd dŵr daear yn Lloegr

Crynodeb Prosiect FRS19217/S

Mae'r prosiect hwn yn darparu tystiolaeth o'r dulliau cyfredol ar gyfer rheoli perygl llifogydd dŵr daear ledled Lloegr. Bydd rhannu dealltwriaeth o arfer cyfredol yn helpu awdurdodau rheoli risg ac eraill i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau fel y'u nodwyd yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn Lloegr (2020). Bydd hefyd yn helpu i dargedu gwaith yn y dyfodol ym maes rheoli perygl llifogydd dŵr daear.

**Cyd-destun**

Mae llifogydd dŵr daear yn digwydd pan fydd lefel trwythiad y dŵr daear yn codi i lefelau sy'n sylweddol uwch na'r arfer. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd rôl trosolwg strategol mewn rheoli llifogydd dŵr daear. Mae awdurdodau llifogydd lleol arweiniol yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal a chymhwyso strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd dŵr daear.

**Dull**

Cynhaliodd y prosiect asesiad cyflym o'r dystiolaeth, gan ddefnyddio dulliau eraill i gasglu data ar y dulliau cyfredol o reoli perygl llifogydd dŵr daear yn Lloegr. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr, arolwg a anfonwyd at yr awdurdodau rheoli risg a sefydliadau partner sydd â rolau mewn rheoli perygl llifogydd dŵr daear, a chyfweliadau â rhanddeiliaid. Edrychodd yr adolygiad ar lywodraethu, cofnodi digwyddiadau llifogydd, asesu perygl llifogydd, darogan a rhybuddio am lifogydd, camau lliniaru, a bylchau yn erbyn y strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

**Prif ganfyddiadau**

- Mae cryn dystiolaeth o sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu data, yn enwedig rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau llifogydd lleol arweiniol, cwmnïau dŵr, yr Awdurdod Glo ac eraill.
- Gwnaed cynnydd ers i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 roi pwerau i'r awdurdodau llifogydd lleol arweiniol gydlynu rheoli peryglon llifogydd lleol, gan gynnwys dŵr daear, ac i Asiantaeth yr Amgylchedd gael y rôl trosolwg strategol.
- Lle mae'r perygl o lifogydd dŵr daear yn sylweddol, daethpwyd o hyd i ddulliau o asesu'r risg, cofnodi digwyddiadau, a darogan, rhybuddio a lliniaru. Nid yw dulliau gweithredu yn gyson ledled Lloegr ac mae mynediad cyfyngedig i wybodaeth am risgiau.
- Prin iawn yw'r canllawiau ar sut i weithredu mesurau lliniaru llifogydd dŵr daear, yn enwedig lle mae dŵr daear yn integreiddio â ffynonellau llifogydd eraill.
- Prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos bod perygl llifogydd dŵr daear yn cael ei ystyried a'i drin trwy gynllunio gofodol, o dan yr amodau hinsoddol presennol neu yn y dyfodol.

Nodwyd y canlynol fel gweithgareddau blaenoriaeth uchel a fyddai'n dod â'r budd mwyaf i awdurdodau rheoli risg, y dylai Asiantaeth yr Amgylchedd arwain arnynt i fynd i'r afael â bylchau sylweddol.

- Cynnal ymchwil bellach i adolygu'r trefniadau llywodraethu cyfredol ar gyfer rheoli perygl llifogydd dŵr daear.
- Gwella prosesau ar gyfer cofnodi digwyddiadau llifogydd dŵr daear yn gyson fel y gellir rhannu a defnyddio data yn well ar draws sefydliadau.
- Ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer sicrhau bod data gofodol ynglŷn â pherygl llifogydd dŵr daear sy'n cynnwys senarios heddiw a senarios newid yn yr hinsawdd ar gael yn Lloegr.

- Ymgorffori asesiadau lleol o'r perygl o lifogydd dŵr daear mewn diweddariad o'r asesiad risg llifogydd cenedlaethol newydd yn y dyfodol (a ddylai gael ei gyhoeddi yn 2024).
- Adolygu a diweddaru'r wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd ar sut i baratoi ac ymateb i lifogydd dŵr daear.
- Rhoi arweiniad sy'n galluogi fforymau cydnerth lleol i ystyried llifogydd dŵr daear yn ddigonol mewn cynlluniau llifogydd amlasiantaethol.
- Datblygu canllawiau ar sut i weithredu cynlluniau lliniaru llifogydd dŵr daear. Dylai hyn egluro prosesau gweithredol y fframwaith rheoleiddio ar gyfer cynlluniau mwy i bwmpio dŵr daear.
- Cyflwyno sesiynau hyfforddi lefel uchel i awdurdodau rheoli risg ar reoli perygl llifogydd dŵr daear.

Nodwyd dau weithgaredd blaenoriaeth uchel ychwanegol i sefydliadau eraill arwain arnynt:

- Dylai unrhyw sefydliad sy'n darparu rhybuddion llifogydd dŵr daear a/neu wasanaeth rhybuddio i'r cyhoedd ddarparu gwybodaeth am ble mae'r rhybuddion hynny ar gael i annog pobl i ymuno â'r gwasanaeth.
- Dylid gwella canllawiau ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol er mwyn eu galluogi i ystyried ac asesu llifogydd dŵr daear yn effeithiol o fewn cynllunio gofodol a rheoli datblygu.

**Y camau nesaf**

Defnyddir y wybodaeth am ddulliau ac astudiaethau achos a gasglwyd trwy'r prosiect hwn i helpu sefydliadau i weithio gyda'i gilydd, yn enwedig awdurdodau llifogydd lleol arweiniol ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Defnyddir yr argymhellion i dargedu meysydd gwaith yn y dyfodol (arweiniad, datblygu sgiliau, gwella systemau a data) i helpu i gyflawni uchelgeisiau datganiad polisi rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol y llywodraeth (2020) a'r strategaeth genedlaethol ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar gyfer Lloegr o ran rheoli risg llifogydd dŵr daear.

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect FRS19217, yr adroddir amdano'n fanwl yn yr allbwn/allbynnau canlynol:

**Adroddiad:** FRS19217/R

**Teitl:** Asesiad cyflym o'r dystiolaeth a throsolwg o reoli perygl llifogydd dŵr daear yn Lloegr.

**Ebrill 2021**

**Rheolwr y prosiect:** Hayley Bowman

**Contractiwr ymchwil:** JBA Consulting

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd